CAERDYDD
CARDIFF

DINAS A SIR CAERDYDD
CITY AND COUNTY OF CARDIFF

| | |
|---|---|
| **GWYS Y CYNGOR** | DYDD IAU, 27 HYDREF 2022 |
| **COUNCIL SUMMONS** | THURSDAY, 27 OCTOBER 2022, |

Fe'ch gwysir I fynychu cyfarfod **CYNGOR SIR DINAS A SIR CAERDYDD**, a gynhelir yn Council Chamber - City Hall, Cathays Park, Cardiff, CF10 3ND on Dydd Iau, 27 Hydref 2022 at 4.30 pm I drafod y materion a nodir yn yr agenda atodedig.

**Davina Fiore**
**Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol**

Neuadd y Sir
Caerdydd
CF10 4UW

Dydd Gwener, 21 Hydref 2022

---

Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch at eraill   Gwrthrychedd a priodoldeb   Anhunaoldeb a stiwardiaeth
Uniondeb   Dyletswydd i gynnal y gyfraith   Atebolrwydd a bod yn agored

Trwy dderbyn y Pecyn Agenda hwn yn electronig, rydych wedi arbed yr Awdurdod tua. £29.92 mewn costau argraffu

**GWE-DARLLEDU**

Caiff y cyfarfod hwn ei ffilmio i'w ddarlledu'n fyw a/neu yn olynol trwy wefan y Cyngor. Caiff yr holl gyfarfod ei ffilmio, heblaw am eitemau eithriedig neu gyfrinachol, a bydd y ffilm ar gael ar y wefan am 12 mis. Cedwir copi o'r recordiad yn unol â pholisi cadw data'r Cyngor.

Ar ddechrau'r cyfarfod, bydd y Cadeirydd yn cadarnhau a gaiff y cyfarfod cyfan neu ran ohono ei ffilmio. Fel rheol, ni chaiff ardaloedd y cyhoedd eu ffilmio. Fodd bynnag, wrth fynd i'r ystafell gyfarfod a defnyddio'r ardal gyhoeddus, mae aelodau'r cyhoedd yn cydsynio i gael eu ffilmio ac y defnyddir y lluniau a recordiadau sain hynny o bosibl at ddibenion gwe-ddarlledu a/neu hyfforddi.

Os oes gennych gwestiynau ynghylch gwe-ddarlledu cyfarfodydd, cysylltwch â'r Gwasanaethau Pwyllgorau ac Aelodau ar 02920 872020 neu e-bost Gwasanethau Democrataidd

| *Eitem* | | *Tua Amser* | *Max Amser* |
|---|---|---|---|
| **1** | **Ymddiheuriadau am Absenoldeb**<br><br>*Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.* | 4.30 pm | |
| **2** | **Datgan Buddiannau**<br><br>*Derbyn datganiadau buddiannau (i'w gwneud yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau)* | | |
| **3** | **Cofnodion** *(Tudalennau 9 - 36)*<br><br>*Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod blaenorol fel rhai cywir: 13 Medi 2022, 29 Medi 2022* | | |
| **4** | **Cwestiynau Cyhoeddus**<br><br>*Clywed y cwestiynau a gyflwynwyd gan Aelodau'r Cyhoedd o flaen llaw.* | | |
| **5** | **Deisebau**<br><br>*Derbyn deisebau gan Aelodau Etholedig i'r Cyngor.* | 4.30 pm | 5 mins |
| **6** | **Cyhoeddiadau'r Arglwydd Faer**<br><br>*Clywed cyhoeddiadau'r Arglwydd Faer gan gynnwys Cydnabyddiaethau a Gwobrau.* | 4.35 pm | 5 mins |
| **7** | **Adroddiad Rheoli Trysorlys 2021-22** *(Tudalennau 37 - 62)*<br><br>*Adroddiad Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau.* | 4.40 pm | 15 mins |
| **8** | **Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol yr Awdurdod Lleol** *(Tudalennau 63 - 412)*<br><br>*Cynnig y Cabinet* | 4.55 pm | 15 mins |
| **9** | **Adroddiad Lles Blynyddol** *(Tudalennau 413 - 704)*<br><br>*Cynnig y Cabinet* | 5.10 pm | 15 mins |
| **10** | **Chweched Adroddiad Monitro Blynyddol Cynllyn Datblygu Lleol Caerdydd** *(Tudalennau 705 - 1006)*<br><br>*Cynnig y Cabinet* | 5.25 pm | 15 mins |
| **11** | **Datganiadau'r Cabinet**<br>*(Tudalennau 1007 - 1046)* | 5.40 pm | 45 mins |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | *Derbyn datganiadau gan yr Arweinydd ac Aelodau'r Cabinet* | | |
| | **Egwyl (15 munud)** | | |
| **12** | **Hysbysiad o Gynnig - 1**<br><br>**CYNIGIWYD GAN: Y CYNGHORYDD LEONORA THOMSON**<br>**EILIWYD GAN: Y CYNGHORYDD JESS MOULTRIE**<br><br>*Mae'r Cyngor hwn yn gresynu'r anhrefn economaidd a ddygwyd gan 'gyllideb fach' mis Medi'r Canghellor a arweiniodd at*<br><br>• *Sterling yn chwalu i'w werth isaf erioed yn erbyn y doler, gan wthio cost mewnforion i fyny*<br>• *Cyfradd llog yn codi a thynnu cannoedd o gynhyrchion morgais yn ôl*<br>• *Bygythiadau hylifedd i nifer o gynlluniau pensiwn mawr, gan arwain at Fanc Lloegr yn prynu gwerth biliynau o fondiau drwy arian trethdalwyr i "adfer gweithrediad y farchnad"*<br><br>*a'r cyfan wedi gwaethygu effaith sylweddol eisoes yr Argyfwng Costau Byw yn uniongyrchol ar drigolion Caerdydd.*<br><br>*Mae'r Cyngor yn nodi pryder na ddarparodd y 'gyllideb fechan' unrhyw gymorth newydd i wasanaethau cyhoeddus, ac mae'n nodi ymhellach y bydd y penderfyniad dilynol i ohirio'r Adolygiad Gwariant yn arwain at doriad sylweddol mewn termau real i gyllidebau'r Cyngor, ar adeg pan rydym yn delio â phwysau chwyddiant digynsail ac ymchwydd yn y galw am wasanaethau, gan nodi hefyd bod £300 miliwn eisoes wedi ei dorri o gyllideb y Cyngor hwn o ganlyniad i ddegawd o lymder.*<br><br>*Yn benodol, mae'r Cyngor yn mynegi pryder eithriadol bod y bwlch yn y gyllideb sy'n wynebu'r Cyngor yn y flwyddyn ariannol nesaf bellach yn £53 miliwn, gan arwain at doriadau dwfn oni bai bod Llywodraeth y DU yn ymrwymo i ariannu gwasanaethau cyhoeddus yn iawn ym mhob un o'r 4 gwlad.*<br><br>*Mae'r Cyngor yn croesawu'r gwaith y mae Cyngor Caerdydd yn ei wneud i gefnogi preswylwyr orau ar yr adeg heriol hon - gan gynnwys sefydlu mannau cynnes yn ein hybiau, cryfhau cyngor ariannol ac i wasanaethau* | 6.40 pm | 30 mins |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | *gwaith, ehangu cefnogaeth i helpu digartrefedd, a sefydlu Tasglu Costau Byw i gydlynu cymorth gyda phartneriaid eraill - ond mae hefyd yn cydnabod y bydd angen mwy fyth o help os yw Llywodraeth y DU yn methu (fel sydd dan fygythiad) i gynyddu budd-daliadau yn unol â chwyddiant.*<br><br>*Mae'r Cyngor yn penderfynu:*<br><br>• *Datgan argyfwng Costau Byw fel cydnabyddiaeth o'r pwysau ariannol digynsail sy'n wynebu trigolion a gwasanaethau'r Cyngor*<br>• *Hyrwyddo a rhoi cyhoeddusrwydd i'r gefnogaeth mae'r Cyngor a'i bartneriaid yn ei gynnig mewn ymateb i'r argyfwng*<br>• *I gondemnio cam-drafod diweddar y Llywodraeth o economi'r DU, ac i alw ar y Prif Weinidog a'r Canghellor i ariannu Gwasanaethau Cyhoeddus yn iawn gan gynnwys Cynghorau*<br>• *Cefnogi'r egwyddor mai'r rhai sydd fwyaf abl i dalu – boed yn unigolion neu gorfforaethau - ddylai ysgwyddo'r baich mwyaf wrth ymateb i'r Argyfwng Costau Byw a chydbwyso cyllid y cenhedloedd*<br>• *I ofyn i'r Cabinet roi diweddariadau rheolaidd i'r Cyngor ynghylch effaith yr argyfwng Costau Byw ar ddarparu gwasanaethau'r Cyngor, ac ar ein gwaith i helpu'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein Dinas* | | |
| **13** | **Hysbysiad o Gynnig - 2**<br><br>**CYNIGIWYD GAN: CYNG MARGARET LEWIS**<br>**EILIWYD GAN: Y CYNGHORYDD JACKIE JONES**<br><br>1. *Ers dyfodiad SS Empire Windrush yn Nociau Tilbury ar 22 Mehefin 1948, y bobl, sydd bellach yn cael eu hadnabod yn annwyl fel Cenhedlaeth Windrush, yw'r rhai a atebodd alwad y DU i helpu i ailadeiladu gwlad flinedig a chwalwyd gan ryfel.*<br><br>2. *Ymgartrefodd nifer o'r Genhedlaeth Windrush a chael croeso yng Nghaerdydd, gyda'r disgwyl o fod yng Nghaerdydd am genedlaethau. Er iddyn nhw ymgartrefu ers degawdau, mae nifer wedi cael eu heffeithio'n negyddol gan Ddeddf Cenedligrwydd a Ffiniau newydd 2022.*<br><br>3. *Mae'r Cyngor yn nodi cynnig y Cynghorydd Ebrahim a basiwyd gan Gyngor Caerdydd ym mis Hydref 2018 yn galw ar Gabinet y Cyngor i archwilio'r ffordd orau y gall y Cyngor ddarparu cyngor, cymorth a chefnogaeth i'r unigolion hynny a'u teuluoedd yr effeithir arnynt gan effaith negyddol Deddf Mewnfudo 2014, a'u hannog i ddod ymlaen fel y gall y Cyngor helpu i sicrhau eu hawl* | 7.10 pm | 30 mins |

*i aros yn y DU a'u galluogi i fyw yma yng Nghaerdydd, yn hyderus o'u statws mewnfudo.*

4. *Mae Cyngor Caerdydd yn cefnogi pasio Deddf Windrush yn San Steffan sydd:*

   a. *Yn rhoi dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i leihau anghyfartaledd hil ar gyfer canlyniadau yn eu gwaith fel yr amlygwyd gan*
   b. *Archwiliad Anghyfartaledd Hiliol Llywodraeth y DU ac adroddiad Tasglu Cydraddoldeb Hiliol Caerdydd.*
   c. *Sefydlu cronfa cydlyniant cymunedol y Gymanwlad, a fydd yn dod o gyllidebau sy'n bodoli eisoes, ar gyfer datblygu prosiectau i drigolion y DU a'r Gymanwlad er mwyn mynd i'r afael â gwahaniaethau ac ailadeiladu cysylltiadau cymdeithasol ac economaidd o gymunedau a ddifrodwyd gan sgandal Windrush fel y cymunedau hynny yng Nghaerdydd.*

5. *Gan fod Adroddiad Tasglu Cydraddoldeb Hiliol Caerdydd yn nodi 'dechrau ymdrechion ein dinas i roi diwedd ar anghyfiawnderau hiliol hirsefydlog er lles' ac mae'n darparu map ffordd i weithredu'r nod o (ymhlith pethau eraill) 'creu prifddinas fwy cyfartal ar draws ein gwasanaethau cyhoeddus, y sector gwirfoddol ac o fewn ein cymunedau', yn unol â pholisi Cenedl Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru erbyn 2030:*

*Mae'r Cyngor yn PENDERFYNU:*

1. *Cefnogi pasio Deddf Windrush y DU sy'n cefnogi trigolion Caerdydd.*

2. *I benodi Aelod Arweiniol Windrush ar y Cyngor a fydd:*

   a. *Yn eiriolwr dros deuluoedd sydd wedi'u heffeithio gan Windrush a'r ddeddfwriaeth bresennol.*

   b. *Bod yn bwynt cyntaf o gefnogaeth i ddioddefwyr sgandal Windrush o Gaerdydd a'r rhai yr effeithiwyd yn negyddol arnynt gan Ddeddf Cenedligrwydd a Ffiniau 2022.*

   c. *Hyrwyddo a chefnogi rhwydwaith o sefydliadau sector cyfreithiol, cymdeithasol a gwirfoddol i ddarparu gwasanaeth effeithiol i drigolion Caerdydd sydd wedi eu heffeithio gan Sgandal Windrush a'r Ddeddf Cenedligrwydd a Ffiniau.*

3. *Codi ein hymwybyddiaeth o effaith Deddf*

| | | | |
|---|---|---|---|
| | *Cenedligrwydd a Ffiniau newydd 2022 ar gymunedau.* | | |
| **14** | **Cwestiynau ar Lafar**<br><br>*Clywed cwestiynau ar lafar i'r Arweinydd, Aelodau'r Cabinet; Cadeiryddion y Pwyllgor a/neu Aelodau enwebedig o'r Awdurdod Tân.* | 7.40 pm | 80 mins |
| **15** | **Materion Brys** | | |
| | **Materion Cyngor nas Gwrthwynebir** | | |
| **16** | **Aelodaeth Pwyllgorau** *(Tudalennau 1047 - 1050)*<br><br>*Adroddiad y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Swyddog Monitro* | 9.00 pm | 5 mins |
| **17** | **Penodi Cynrychiolwyr Rhiant-Lywodraethwr i'r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc.**<br>*(Tudalennau 1051 - 1052)*<br><br>*Adroddiad y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Swyddog Monitro* | 9.05 pm | 5 mins |
| **18** | **Cwestiynau Ysgrifenedig**<br><br>*Yn unol â Rheolau Gweithdrefn y Cyngor, Rheol 17(f), caiff Cwestiynau Ysgrifenedig eu hystyried a'r ymateb ei gynnwys fel cofnod yng nghofnodion y cyfarfod.* | 9.10 pm | |